

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD IAU 18 MEHEFIN 2020

12:00 – 13:00, AR ZOOM

YN BRESENNOL: Jenny Rathbone AS (Cadeirydd), Mia Rees (ar ran Suzy Davies AS), Ryland Doyle (ar ran Mike Hedges AS), Carmel Condon (ar ran Helen Mary Jones AS), Sarah Rees (dros gyfnod mamolaeth Bethan Sayed AS)

RHANDDEILIAID YN BRESENNOL: Rachael Clarke (BPAS), Helen Bayliss (Cwm Taf Morgannwg), Kate Bayliss (Aneurin Bevan), Rosemary Cutmore (BPAS), Amanda Davies (Bae Abertawe), Bronwen Davies (ARC), Jane Dickson (Aneurin Bevan), Naomi Dixon (RCM), Faye Farthing (Endometriosis UK), Rachel Gilmore (Cwm Taf Morgannwg), Angela Gorman (ARC), Craig Lawton (Cymdeithas Feddygol Prydain), Andrew McMullan (BPAS), Sarah Pitts (Betsi Cadwaladr), Helen Rogers (RCM), Vivienne Rose (BPAS), Alison Scouller (ARC), Caroline Scherf (Caerdydd a'r Fro), Debbie Shaffer (FTWW), Alan Treharne (Hywel Dda), Hilary Watson (WEN Cymru), Suzanne Williams (Cwm Taf Morgannwg)

YMDDIHEURIADAU: Dawn Bowden AS, Suzy Davies AS

1. CROESO A CHYFLWYNIADAU

Agorodd Jenny Rathbone (JR) y cyfarfod.

2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 27 CHWEFROR 2020

Nododd RC y cytunwyd y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol ofyn am gynnwys llesiant mislif yn y rhan iechyd a lles yn y cwricwlwm yn hytrach na'r rhan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Gofynnodd Alison Scouller am ychwanegu triniaethau anffrwythlondeb i'r pynciau posibl i'w trafod yn y dyfodol.

3. MATERION SY'N CODI

Dim.

4. TROSOLWG O WASANAETHAU ERTHYLIAD TELE-FEDDYGOL YN YSTOD COVID-19

Cyflwynodd RC y newidiadau a oedd wedi cael eu gwneud i reoliadau a chanllawiau erthyliad o ganlyniad i Covid-19 a oedd wedi galluogi dyfodiad darpariaeth erthyliad telefeddygol ledled y DU. Yn bennaf, roedd hyn yn cynnwys:

- Newid gan lywodraethau Cymru, Lloegr a'r Alban i reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Erthylyd 1967 a alluogodd gleientiaid i weinyddu mifepristone gartref; a
- Newid y canllawiau i egluro nad oedd angen sgan rheolaidd ar gyfer menywod sy'n ceisio Erthyliadau Meddygol Cynnar (ond dylid eu darparu o hyd os bydd ansicrwydd ynghylch cyfnod y beichiogrwydd neu symptomau beichiogrwydd ectopig).

Aneurin Bevan – Dywedodd Jane Dickson fod y newid o ran y rheoliadau wedi chwyldroi gofal erthyliad ac wedi galluogi'r gwasanaeth i ddarparu llawer mwy o driniaethau nag ar yr un pryd yn 2019. Ar ôl ymgynghoriad dros y ffôn, darparwyd pils trwy bost cofrestredig. Dywedodd fod cyfnodau beichiogrwydd ac amseroedd aros wedi gostwng a bod menywod bellach yn cael triniaeth o fewn 5 diwrnod. Ni welwyd unrhyw gymhlethdodau pellach. Dywedodd hefyd fod darpariaeth o bell yn golygu nad oedd yn rhaid i fenywod gael llofnod ar ffurflen HSA1 gan feddyg teulu ac y ceir yr holl lofnodion yn fewnol.

Betsi Cadwaladr a Phowys – Dywedodd Rachael Clarke fod menywod yn galw BPAS ar linell archebu genedlaethol, bod ymgynghoriad ffôn neu fideo yn cael ei ddarparu gan nyrs neu fydwraig, a bod BPAS yn gweithio gyda phartner fferyllol cenedlaethol i ddarparu pils drwy'r post. Roedd tua 75 y cant o lwyth achosion EMA yn cael ei ddarparu yng Nghymru heb sgan. Mae BPAS yn parhau i weld cleientiaid llawfeddygol yng Nghaerdydd, Caer a Glannau Mersi, ac mae wedi cael rhai contractau diweddarach gan Fyrddau Iechyd eraill lle roedd newidiadau yn sgil Covid yn golygu na ellid darparu llawdriniaethau yn lleol. Ar draws y gwasanaeth yng Nghymru, roedd y cyfnod beichiogrwydd ar gyfartaledd wedi gostwng tua 11 diwrnod, ac roedd yr amseroedd aros wedi gostwng o tua wyth diwrnod i lai nag un diwrnod, er gwaethaf cynnydd sylweddol yn nifer y cleientiaid a gafodd driniaeth.

Caerdydd a'r Fro – Dywedodd Caroline Scherf y bu symudiad araf ond pendant tuag at deleffeddygaeth a oedd bellach yn cyfrif am rhwng traean a hanner yr holl gleifion. Mae fferyllfa'r ysbyty yn danfon cyffuriau i gartrefi pobl. Mae'r newid yn y darpariaeth wedi cwtdogi'r rhestr aros am driniaeth ac wedi lleihau'r cyfnod beichiogrwydd. Dywedodd hefyd fod Cymdeithas Darparwyr Gofal Erthyliad Prydain yn gefnogol iawn i'r newid ac wedi bod yn rhan o lunio'r canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Mawrth. Ei phrif bryder oedd bod y newid yn gyfyngedig o ran amser ar hyn o bryd ac wedi'i gyfyngu i 10 wythnos o feichiogi, mewn cyferbyniad â'r Alban.

Cwm Taf Morgannwg – Dywedodd Helen Bayliss fod yna newyddion cadarnhaol iawn – bod y Bwrdd wedi bod yn darparu ymgynghoriadau o bell bum niwrnod yr wythnos, a bod cleifion yn dod i mewn i gasglu meddyginiaeth (ond nid cymryd y feddyginiaeth ar y safle). Maent wedi bod yn darparu apwyntiad dilynol ar ôl wythnos i gleifion ac maent wedi cael adborth cadarnhaol iawn o safbwynt profiad y claf. Yn yr un modd â byrddau eraill, bu gostyngiad sylweddol mewn amseroedd aros a chyfnodau beichiogi. Dywedodd hefyd fod Cwm Taf, wrth symud ymlaen, yn bwriadu dechrau darparu gwasanaethau llawfeddygol cynnar ar ffurf Allsugno Gwactod â Llaw.

Hywel Dda – Roedd data Alan Treharne yn adleisio'r hyn a welwyd mewn ymddiriedolaethau eraill ac roedd yn cefnogi'r sylwadau blaenorol bod y newid wedi 'chwyldroi' gofal erthyliad. Dywedodd ei fod yn teimlo'n gryf y byddai mynd yn ôl at y dull darparu blaenorol yn anfantais i'w gleifion. Gydag ardal ddaearyddol Hywel Dda, roedd darpariaeth o bell yn gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch ac wedi lleihau amseroedd aros – yn ogystal â lleihau'r risg o gymhlethdodau clinigol oherwydd beichiogrwydd cynharach. Cefnogodd ddull Cymru gyfan o hyrwyddo parhad darpariaeth bell.

Bae Abertawe – Dywedodd Amanda Davies fod ei gwasanaeth wedi symud at ymgynghoriadau o bell, gyda chleifion yn casglu meddyginiaethau lle bo hynny'n bosibl ond, os oedd angen, gellid eu hanfon allan. Adleisiodd y datganiadau blaenorol fod hyn wedi chwyldroi gofal erthyliad. Mae'r amser aros wedi gostwng yn sylweddol o oddeutu 13 diwrnod hyd at y driniaeth i 2 ddiwrnod, mae adborth cleifion yn gadarnhaol iawn, ac mae'r beichiogrwydd ar gyfartaledd wedi gostwng i 6 wythnos. Ar ôl cynnydd cychwynnol mewn niferoedd, mae hyn wedi dychwelyd i lefel weddol normal. Soniodd nad oedd unrhyw gynydd o ran cymhlethdodau.

Roedd y drafodaeth yn cynnwys canolbwyntio ar y cwestiynau a godwyd gan glinigwyr ynghylch parhad y ddarpariaeth dele-feddygol bresennol, a chan aelodau eraill o'r grŵp ynghylch diogelwch, effeithiolrwydd a chymhlethdodau a allai ddeillio o ddarparu gwasanaethau erthyliad heb sgrinio rheolaidd, gan gynnwys:

- Darpariaethau diogelu yn ystod ymgynghoriadau ffôn, gan gynnwys gofynion i droi'r sain i lawr ar y ffôn i sicrhau bod menywod yn siarad heb fod unrhyw un arall yn gwrando, rhoi ymgynghoriadau fideo i bobl dan 18 oed lle maent yn gallu symud y camera o amgylch yr ystafell i ddangos eu bod ar eu pennau eu hunain, geiriau diogel i fenywod eu defnyddio os maent yn ofni am eu diogelwch, ac adroddiadau o ragor o atgyfeiriadau diogelu o ganlyniad i ymgynghoriadau tele-feddygol
- Bod menywod yn deall amseriad meddyginiaethau (24-48 awr ar wahân), ond hyd yn oed os nad ydynt wedi deall, mae'n parhau i fod yn ddiogel, a dim ond ychydig yn llai effeithiol, i gymryd y meddyginiaethau ar yr un pryd
- P'un a yw'n bosibl cysylltu cleifion erthyliad ag achosion o fynd i ofal aciwt neu ofal dilynol, o ystyried problemau gyda chysylltu data a natur ddatgysylltiedig cofnodion erthyliadau
- Yr angen am ddileu'r cyfyngiad ar y cyfnod beichiogrwydd yn y gorchymyn presennol i'w defnyddio gartref, a'r buddion sy'n deillio o hyn, sy'n galluogi menywod i gael meddyginiaethau Erthyliad Meddygol Cynnar gartref ar sail asesiad clinigol (ar hyn o bryd, yr argymhelliad yw 12 wythnos)
- Y potensial ar gyfer arbed costau wrth ddarparu gofal erthyliad o bell, a'r buddion i'r Bwrdd Iechyd ehangach os gellir darparu gwasanaethau diogel, effeithiol o ansawdd uchel am gost is
- Y cynnydd o ran diogelwch cleifion a'r risg is o gymhlethdodau o ganlyniad i ostyngiad yn y cyfnod beichiogrwydd – a fyddai'n cael ei beryglu os dychwelir at fformat blaenorol y ddarpariaeth gofal
- Canfod a thrin beichiogrwydd ectopig mewn menywod sy'n dod i gael erthyliad o gymharu â menywod sy'n dewis parhau â'u beichiogrwydd, a'r wybodaeth y mae gwasanaethau erthyliad yn ei rhoi i fenywod i'w helpu i gael gofal aciwt pe bai'r beichiogrwydd yn ectopig.

6. PYNCIAU I GANOLBWYNTIO ARNYNT YN Y CYFARFODYDD NESAF

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer cyfarfodydd yng nghyfnod Covid yn y dyfodol ar Zoom yn cynnwys menywod BAME a'r risgiau y mae Covid yn eu cyflwyno, mynediad at ddulliau atal cenhedlu, iechyd meddwl amenedigol, mynediad at ofal endometriosis, a sgrinio ceg y groth/y fron.

Y cyfarfod nesaf: Gorffennaf 2020, dyddiad a phwnc i'w cadarnhau.